It is valuable practice at night to spend a little while revisiting the invisible sanctuaries of your lived day. Each day is a secret story woven around the radiant heart of wonder. We let our days fall away like empty shells and miss all the treasure. (page 110)

In Ignatian spirituality, this review is often called the Examen – a look back over a day, or any given period of time. It is a good and worthwhile practice to reflect upon your day or week. It allows you to see where and how God has touched your life: where is and was the treasure. This may have been an unexpected phone call, seeing a bright blue sky, or meeting with friends.

During this Lent Course, spend some time each day or week pondering in prayer what you have inherited – what you have received or learned.

Also, give thanks for the many ways in which God has been generous to you; name them or pick one particular occasion.

This type of review could be included when praying through evening prayer or night prayer.



Dydd Mercher
y Llundw
Ash Wednesday

Haelioni mewn Lludw, mewn Angau ac mewn Bywyd

Dyma ddechrau'r Grawys.

Heddiw, rydym yn cychwyn ar daith tuag at y groes, a thu hwnt iddi.

Pa mor haelionus fyddwch chi tuag at Dduw yn yr wythnosau sydd i ddod? Ffydd sy'n ein galw i'r dydd heddiw hwn, i gychwyn ar ein taith gyda Iesu a'i ddisgyblion. Wrth i ni deithio, bydd llawer i feddwl amdano a llawer i'w ystyried. Bydd trafod a myfyrio a chwestiynau i'w holi.

Faint mwy allwn ni ei ddarganfod am Dduw, amdanom ein hunain ac ynghylch ein galwad i fod yn ddisgyblion hael eu cariad yn y byd heddiw?

Yn yr eglwys heddiw fe roddir arwydd y groes ar y talcen mewn lludw, fel nod gweledol i'n hatgoffa am broffwydi'r Hen Destament, a arferent wisgo sachliain a lludw fel arwydd o edifeirwch. Mae'n arwydd hefyd o'r 'llwch' y'n gwnaed ohono a'r 'llwch' y byddwn yn dychwelyd iddo.

- *A yw derbyn arwydd y groes yn rhan o draddodiad eich eglwys chi?*
- *Os ydych yn derbyn arwydd y groes mewn lludw, beth mae hynny'n ei olygu i chi?*

Genesis 3:19 *'Trwy chwys dy wyneb y byddi'n bwyta bara hyd oni ddychweli i'r pridd oherwydd ohono y'th gymerwyd; llwch wyt ti, ac i'r llwch y dychweli.'* (Dduw yn llefaru wrth Adda ac Efa)

Job 42:6 *'Am hynny rwyf yn fy ffieiddio fy hunan, ac yn edifarhau mewn llwch a lludw.'* (Job yn llefaru wrth Dduw)

Generosity in Ash, Death and Life

Lent begins

Today our journey to the cross, and beyond, begins.

How generous to God will you be during the coming weeks? Faith calls us to this day, to begin our walk with Jesus and the disciples. As we make this journey there will be much to think about, a lot to consider. There will be discussion and pondering and questions to be asked.

What more can we discover about God, about ourselves and our call to be disciples of loving generosity in the world of today?

In church today there is the signing of the cross on the forehead. Signed with ash, it provides a visible reminder and link to the prophets of the Old Testament who would clothe themselves in sackcloth and ash, a sign of penitence. A sign, too, of the 'dust' we are made from and the 'dust' to which we will return.

- *Is the receiving of the sign of the cross in ash a part of the tradition of your church?*
- *If you receive the signing of the cross in ash, what does this mean to you?*

Genesis 3:19 *'By the sweat of your face you shall eat bread until you return to the ground, for out of it you were taken; you are dust, and to dust you shall return.'* (God speaking to Adam and Eve)

Job 42:6 *'Therefore I despise myself, and repent in dust and ashes.'* (Job speaking to God)

Ymgom Dydd Mercher y Llundw

**Dydd Mercher y Llundw a llunio'r groes ar fy nhalcen mewn lludw, wrth gefndir canu am y deugain niwrnod a deugain nos.
Mae taith o'n blaenau, ond i ble?
'Daear i'r ddaear, lludw i'r lludw, llwch i'r llwch'.**

*Ble, O Dduw, mae dy gariad a'th haelioni bywiol yn hyn?
A oes ond dim i ddod, angau a gwacter?
Ai ond ymadael a wnawn, darfod,
ac ymdoddi i faw y ddaear?
Ai dim fydd ar ôl?*

**Dydd Mercher y Llundw a llunio'r groes ar fy nhalcen mewn lludw, wrth gefndir canu am y deugain niwrnod a deugain nos.
Mae taith o'n blaenau, ond i ble?
'Mewn gwir a sicr obaith am atgyfodiad i fywyd tragwyddol'.**

*Yma, o Dduw, y mae dy gariad a'th haelioni bywiol ar ein cyfer!
Nid gwacter yw angau, a llenwir y 'dim' â thragwyddoldeb.
Ond dechrau yw ein diwedd,
dechrau rhywbeth newydd.
Mae cymaint ar ôl yn ein haros.*

**Dydd Mercher y Llundw a llunio'r groes ar fy nhalcen mewn lludw, wrth gefndir canu am y deugain niwrnod a deugain nos.
Mae taith o'n blaenau, ond i ble?
Trawsnewid 'ein corff gwael ni' i'w 'gorff gogoneddus ef'.**

*Rwyt tithau, o Dduw, yn arllwys dy gariad a'th haelioni arnom.
Mae'n llenwi ein meddyliau a'n cyrff yn awr, â phenderfyniad a gobaith.
Bydd hynny'n trawsnewid ein bywydau heddiw,
a hyd byth.
Mae cymaint y gallwn ei gynnig a'i wneud.*

**Dydd Mercher y Llundw a llunio'r groes ar fy nhalcen mewn lludw, wrth gefndir canu am y deugain niwrnod a deugain nos.
Mae'r alwad yn uchel ac eglur. A glywn hi?
Dewch, dilynwch yr Un 'a fu farw ac a gyfododd drachefn i'n hachub'.**

Dduw haelionus,
deuaf ger dy fron heddiw, Ddydd Mercher y Llundw.
Bendithia fi â'r ffydd rwyf ei hangen i deithio gyda thi drwy'r wythnosau nesaf hyn.
Byddaf yn dy geisio mewn gweddi a gweithred.
Agor fy nghalon a'm meddwl i fod yn hael wrth roi y Grawys hwn,
i ti ac i'r bobl o'm cwmpas, boed hwy'n wybyddus i mi ai peidio.
Byddaf yn dy geisio mewn gweddi a myfyrdod,
ac yn ceisio hefyd dy gariad trawsffurfiol.
Gweddiaf hyn yn enw Iesu Grist,
y daeth drwy ei groes i ni faddeuant a bywyd newydd.
Amen.

Ash Wednesday Conversation

**Ash Wednesday signing on the forehead, ash in a cross,
Amidst the singing of forty days and forty nights.
A journey awaits, but where will it lead us?
'Earth to earth, ashes to ashes, dust to dust'.**

*Where, O God, is your love and generosity of life in this?
Is it just a nothingness to come, death and emptiness?
Do we simply leave, come to an end,
then fade back into the dirt of the ground?
Is there nothing left?*

**Ash Wednesday signing on the forehead, ash in a cross,
Amidst the singing of forty days and forty nights.
A journey awaits, but where will it lead us?
'In the sure and certain hope of the resurrection to eternal life'.**

*Here, O God, is your love and generosity of life for us!
Death is not emptiness, and the 'nothing' is filled with eternity.
Our ending is but the beginning
of something new.
There is so much left to us.*

**Ash Wednesday signing on the forehead, ash in a cross,
Amidst the singing of forty days and forty nights.
A journey awaits, but where will it lead us?
The transformation of 'our frail bodies' to 'his glorious body'.**

*You, O God, pour your love and generosity upon us.
It fills our minds and bodies now, with purpose and hope.
It will transform our lives now,
and eternally.
There is so much we can offer and do.*

**Ash Wednesday signing on the forehead, ash in a cross,
Amidst the singing of forty days and forty nights.
The call echoes out loud and clear. Do we hear?
Come, follow the One 'who died, was buried and rose again for us'.**

Generous God,
I come before you on this Ash Wednesday.
Bless me with the faith I need to journey with you through these coming weeks.
I will seek you in prayer and in action.
Open my heart and mind to be generous in my giving this Lent,
to you and to those around me, known and unknown.
I will seek you in prayer and in reflection,
and seek, too, your transforming love.
This I pray in the name of Jesus Christ,
whose cross brought forgiveness and new life.
Amen.





Wythnos Gyntaf

y Grawys

The First

Week of Lent

Haelioni a Bod yn Agored i Eraill

Gweddi Agoriadol

Wrth i mi ddod ger dy fron yn awr, gweddiaf am ddoethineb, doethineb Duw sy'n fy adnabod yn dda, a'r doethineb i fod yn hael wrth eraill.

Amen

Wrth i mi ddod ger dy fron yn awr, gweddiaf am ddealltwriaeth, dealltwriaeth o'r hyn mae Duw'n ei ddweud wrthyf a'r ddealltwriaeth a fydd yn arwain at ddarganfod rhywbeth newydd.

Amen

Darllen o'r Salmu

ARGLWYDD, yr wyt wedi fy chwilio a'm hadnabod. Gwyddost ti pa bryd y byddaf yn eistedd ac yn codi; yr wyt wedi deall fy meddwl o bell.

(Salm 139:1-2)

Dy ddwylo di a'm gwnaeth ac a'm lluniodd; rho imi ddeall i ddysgu dy orchmynion.

(Salm 119:73)

Yr wyt wedi mesur fy ngherdded a'm gorffwys, ac yr wyt yn gyfarwydd â'm holl ffyrdd. Oherwydd nid oes air ar fy nhafod, heb i ti, Arglwydd, ei wybod i gyd.

(Salm 139:3-4)

Dy ddwylo di a'm gwnaeth ac a'm lluniodd; rho imi ddeall i ddysgu dy orchmynion.

I'r Duw sy'n fy adnabod mor dda, gweddiaf,
am dangnefedd yn fy nghalon,
am wir dderbyn wrth groesawu,
am gariad wrth lefaru,
am obaith wrth feddwl
ac am haelioni dy gariad i'm llenwi.

Amen.

Generosity and Openness to Others

Opening Prayer

As I come before you now, I pray for wisdom,
the wisdom of God who knows me well
and the wisdom to be generous to others.

Amen

As I come before you now, I pray for understanding,
the understanding of God's word to me
and the understanding to discover something new.

Amen

Reading from the Psalms (rewritten)

○ Lord, you have searched me out and known me.
You know when I sit down and when I rise up;
you discern my thoughts from far away.

(Psalm 139:1-2)

**Your hands have fashioned me;
give me understanding so that I may learn your commandments.**

(Psalm 119:73)

You search out my path and my lying down,
and are acquainted with all my ways.
Even before a word is on my tongue, ○ Lord,
you know it completely.

(Psalm 139:3-4)

**Your hands have fashioned me;
give me understanding so that I may learn your commandments.**

To the God who knows me so well, I pray,

**for peace in my heart,
for acceptance in my welcome,
for love in my speaking,
for hope in my thinking
and the generosity of your love to fill me.**

Amen.

Cyflwyno'r Thema

Mae Wythnos Gyntaf y Grawys yn ein galw i fyfyrion ynghylch ein perthynas â Duw ac â phobl eraill. Fe'n gelwir i ystyried yn arbennig pa mor agored a hael ydym (neu nad ydym) â'r bobl rydym yn ymwneud â hwy. Gall y rheini fod yn bobl y byddwn yn eu cyfarfod yn yr eglwys neu yn y gymuned ehangach yn ystod ein bywyd beunyddiol.

Mae'n rhan o'n natur ddynol na fyddwn yn mwynhau cwmni pawb rydym yn eu hadnabod neu'n eu cyfarfod! Serch hynny, fe'n gelwir drwy ffydd i gynnig i bobl haelioni eu derbyn a'u croesawu. Dyma'r hyn mae Iesu'n ei ddysgu i ni pan ddywed, 'Car dy gymydog fel ti dy hun' (Marc 12:31).

Efallai bydd y cwestiynau canlynol yn eich herio, neu hyd yn oed yn gwneud i chi deimlo ychydig yn anghyffyrddus. Mae llawer o ffactorau yn ein bywydau personol a all olygu fod y rhain yn gwestiynau anodd i ni. Yn ystod y Grawys, bydd Duw yn aml yn gosod ambell her o'n blaenau, ond nid oes angen i chi rannu unrhyw beth oni bai eich bod yn gyffyrddus yn gwneud hynny.

Mae Iesu'n ein galw i garu ein hunain. Os yw'n anodd i ni garu ein hunain, a bod yn hael yn y ffordd rydym yn gofalu amdanom ein hunain, bydd yn anodd bod yn wir agored a chariadlon a hael tuag at eraill.

- *Pa mor hawdd, neu anodd, yw hi i chi gynnig haelioni cariad i chi eich hun?*
- *Pa mor hawdd, neu anodd, yw hi i chi gynnig haelioni cariad i eraill?*
- *Pwy yw'r bobl rydych yn ei chael yn anodd cynnig haelioni a chariad iddynt? Pam?*

Haelioni a'r Beibl

Darllenwch drwy'r darnau isod.

Matthew 15:21-28

Aeth Iesu allan oddi yno ac ymadawodd i barthau Tyrus a Sidon. A dyma wraig oedd yn Ganannees o'r gyffiniau hynny yn dod ymlaen gan weiddi, 'Syr, trugarha wrthyf, Fab Dafydd: y mae fy merch wedi ei meddiannu gan gythraul ac yn dioddef yn enbyd.' Ond nid atebodd ef un gair iddi. A daeth ei ddisgyblion ato a gofyn iddo, 'Gyr hi i ffwrdd, oherwydd y mae'n gweiddi ar ein hôl.' Atebodd yntau, 'Ni'm hanfonwyd at neb ond at ddefaid colledig ty Israel.' Ond daeth hithau ac ymgrymu iddo gan ddweud, 'Syr, helpa fi.' Atebodd yntau, 'Nid yw'n deg cymryd bara'r plant a'i daflu i'r cwn.' Dywedodd hithau, 'Gwir, syr, ond y mae hyd yn oed y cwn yn buwta o'r briwsion sy'n syrthio oddi ar furdd eu meistri.' Yna atebodd Iesu hi, 'Wraig, mawr yw dy ffydd; boed iti fel y mynni.' Ac fe iachawyd ei merch o'r munud hwnnw.

Rhufeiniaid 11:1-2a, 11-12

Yr wyf yn gofyn, felly, a yw yn bosibl fod Duw wedi gwrthod ei bobl ei hun? Nac ydyw, ddim o gwbl! Oherwydd yr wyf fi yn Israeliad, o linach Abraham ... Nid yw Duw wedi gwrthod ei bobl, y bobl a adnabu cyn eu bod. ... Yr wyf yn gofyn, felly, a yw eu llithriad yn gwmp terfynol? Nac ydyw, ddim o gwbl! I'r gwrthwyneb, am iddynt hwy droseddu y mae iachawdwriaeth wedi dod i'r Cenhedloedd, i wneud yr Iddewon yn eiddgeddus. Ond os yw eu trosedd yn gyfrwng i gyfoethogi'r byd ... pa faint mwy fydd y cyfoethogi pan ddônt yn eu cyflawn rif?

Galatiaid 3:28-29

Nid oes rhagor rhwng Iddewon a Groegiaid, rhwng caeth a rhydd, rhwng gwryw a benyw, oherwydd un person ydych chiwi oll yng Nghrist Iesu. Ac os ydych yn eiddo Crist, yna had Abraham ydych, etifeddion yn ôl yr addewid.

Opening the Theme

This first week of Lent calls us to reflect upon our relationship with God and with others. In particular we are called to consider how open and generous we are (or are not) to those we encounter. These may be the people we meet in church or out in the wider community of our everyday life.

It is a part of our human nature that we will not get on well with everyone we know or meet! Yet, we are called through faith to offer people the generosity of acceptance and welcome. This is what Jesus teaches us when he says, 'Love your neighbour as yourself' (Mark 12:31).

The following questions are ones which may challenge you, or even make you feel a little uncomfortable. There are many factors involved in our personal lives which may mean these are questions we struggle with. In Lent, God often throws out a challenge or two, but only share what you personally are comfortable in sharing.

Jesus calls us to love our own self. If we find it hard to love our self, and be generous in the way we care about our own self, it will be difficult to be truly open and loving and generous to others.

- *How easy or not is it to offer the generosity of love to yourself?*
- *How easy or not is it to offer the generosity of love to others?*
- *Who are the people you find it difficult to offer generosity and love to? Why?*

Generosity and the Bible

Read through the passages below.

Matthew 15:21-28

Jesus left that place and went away to the district of Tyre and Sidon. Just then a Canaanite woman from that region came out and started shouting, 'Have mercy on me, Lord, Son of David; my daughter is tormented by a demon.' But he did not answer her at all. And his disciples came and urged him, saying, 'Send her away, for she keeps shouting after us.' He answered, 'I was sent only to the lost sheep of the house of Israel.' But she came and knelt before him, saying, 'Lord, help me.' He answered, 'It is not fair to take the children's food and throw it to the dogs.' She said, 'Yes, Lord, yet even the dogs eat the crumbs that fall from their masters' table.' Then Jesus answered her, 'Woman, great is your faith! Let it be done for you as you wish.' And her daughter was healed instantly.

Romans 11:1-2a, 11-12

I ask, then, has God rejected his people? By no means! I myself am an Israelite, a descendant of Abraham ... God has not rejected his people whom he foreknew ...

So I ask, have they stumbled so as to fall? By no means! But through their stumbling salvation has come to the Gentiles, so as to make Israel jealous. Now if their stumbling means riches for the world ... how much more will their full inclusion mean!

Galatians 3:28-29

There is no longer Jew or Greek, there is no longer slave or free, there is no longer male and female; for all of you are one in Christ Jesus. And if you belong to Christ, then you are Abraham's offspring, heirs according to the promise.

Treuliwch ennyd yn darllen y darnau hyn ac yn myfyrio arnynt. [Ar Gwrs Grawys, trafodwch hwy mewn grwpiau bach.]

Meddylwch am y cwestiynau canlynol:

- *Beth mae'r darlleniadau hyn yn ei ddweud wrthyfych chi, yn bersonol, am thema haelioni a bod yn agored i eraill?*
- *Beth mae'r darlleniadau hyn yn ei ddweud ynghylch pa mor agored oedd Iesu i eraill?*
- *Beth mae'r darlleniadau hyn yn ei ddweud ynghylch pa mor agored yw Duw a neges yr efengyl i eraill?*

Mae yna symudiad yn digwydd yn y darlleniadau, symud o allgau tuag at dderbyn. Mae'r Gananees yn herio Iesu, gan alw arno i iacháu ei merch, gan gredu y gall wneud hynny. Mae'n sefyll yn gadarn a thrwy hynny'n datguddio ei ffydd, ffydd y mae Iesu'n ei chydabod. Efallai'n wir mai dieithryn ydyw, ond mae wedi clywed digon am Iesu fel ei bod yn gallu ymddiried ynddo. Fel yn achos y wraig o Samaria sydd hefyd yn cynnal sgwrs â Iesu (Ioan 4:1-42), fe welir croesi ffiniau – ffiniau cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol.

Ond dyna a wnâi Iesu – estyn allan a dryllio ffiniau, fel y gwelwn ef yn ei wneud mewn llawer o'i ddamhegion a thrwy gydol ei weinidogaeth. Dengys Iesu fod haelioni Duw ar gyfer pawb, ac nid dim ond ar gyfer pobl Israel. Mae'r Epistolau'n datgan hynny, megis yng ngeiriau'r Apostol Paul, a gyhoeddodd mai yntau oedd yr Apostol i'r Cenhedloedd. Mae Duw ar gyfer pawb, nid dim ond rhyw ychydig breintiedig.

Mae'r darlleniad o'r Epistol at y Galatiaid yn ein hatgoffa ein bod oll yn un yn Iesu Grist. Mae rhywbeth unigryw am bob un ohonom, ein hymdeimlad o 'pw yw fi', y gallwn ei gyflwyno i Dduw. Fel yn achos y darlleniadau eraill, gwelir symud cadarnhaol at y fan lle mae pawb yn cael eu gwerthfawrogi a'u galw

Haelioni a Thaith Ffydd

Faint o'r darlleniadau hyn o'r Beibl sy'n llefaru wrth ein stori ni a'n taith mewn ffydd? Sut allai'r darlleniadau ein hysgogi i fod yn hael ac yn agored yn ein hymwneud ag eraill?

Credai Iesu i ddechrau mai ei alwad oedd ond i alw pobl Israel yn ôl i'r gorlan. Fodd bynnag, sylweddolodd fod grwpiau eraill o bobl yn clywed ac yn deall y cyfan a ddysgai, ac yn deall pwy ydoedd. A oedd Iesu'n ffafrio pobl Israel? Ar yr olwg gyntaf, gallai ymddangos felly, ond yn yr Efengylau gwelwn stori ar ôl stori'n dangos sut y bu'n dramgwydd i'r awdurdodau oherwydd y bobl roedd yn cymdeithasu â hwy. Nid oedd terfyn ar ei haelioni tuag at y bobl a geisiai ei gymorth.

Ar ddechrau'r sesiwn hon, gofynnwyd y cwestiwn: Pwy yw'r bobl rydych yn ei chael yn anodd cynnig haelioni a chariad iddynt? Wrth gwrs fe fydd yna bobl yr ydym wir yn mwynhau eu cwmni, ac eraill nad ydym yn closio atynt. Mae gan bob un ohonom ein hoff bethau a'n casbethau. Mae gennym oll ein rhagfarnau, a fydd yn effeithio ar ba mor hael ac agored y byddwn ag eraill.

Waeth pa mor hoff ydym o rywun, neu fel arall, a bid a fo a ydym yn cytuno â rhywun ai peidio, dylem 'ymdrin â'n perthynas ag eraill gyda'r dilysrwydd a ddaw o gyfuno ffydd a bywyd, gan ystyried bod i ni fod yn onest mewn perthynas a dod â chariad i berthynas yr un peth'. (David Gee, tudalen 86).

- *Sut allai hyn edrych yn ein heglwysi, ein cymunedau a'r byd ehangach?*

Rydym i fod i gofleidio ym mhob perthynas y cariad a'r haelioni y mae Duw yn ei ddangos atom ninnau. Mae ffydd yn ein galw i groesawu'r cariad hwnnw ac i'w anrhydeddu drwy'r ffyrdd rydym yn ceisio croesawu eraill. Mae hynny'n ein harwain i barchu urddas a dilysrwydd pobl eraill, gan ganiatáu i gariad lifo, hyd yn oed pan fyddwn yn ei chael yn anodd i wir 'garu' pobl nad ydym yn closio atynt nac yn hoff o gymdeithasu â hwy. Mae cariad yn gofyn i ni fod â chalonnau agored,

Spend a few moments reading and reflecting on these passages. [On a Lent Course discuss them in small groups.]

Consider the following questions

- *What do these passages say to you, personally, about the theme of generosity and openness to others?*
- *What do these passages say about the openness of Jesus to others?*
- *What do these passages say about the openness of God and the gospel message to others?*

There is a sense of movement through the readings, a movement from exclusion to inclusion. Jesus meets his match in the Canaanite woman who calls him to heal her daughter, believing that he can do this. She stands up for herself and in doing so reveals her faith, which Jesus acknowledges. She may be an outsider, but she has heard enough about Jesus to place her trust in him. As with the woman of Samaria who also engages with Jesus in conversation (John 4:1-42), there is the realisation that boundaries are being crossed – social, cultural and religious.

Yet, this is what Jesus did – he stretched out his hand and tore down boundary lines, as we discover in many of his parables and throughout his ministry. Jesus reveals that the generosity of God is for all people and not only for the people of Israel. The epistles reveal this, and so does the apostle Paul, who proclaimed himself as the apostle to the Gentiles. God is for all, not just a selected few.

The passage from Galatians reminds us that we are all one in Jesus Christ. We all have our own uniqueness, our own sense of 'who I am', to bring to God. As with the other passages, there is an outward movement where all are valued and called.

Generosity and the Journey of Faith

How may these Bible passages speak into the story and journey of our faith? How may they enable us to offer a generosity of openness to others?

Jesus at first believed that he was called only to bring back into the fold the people of Israel. Yet, there came the realisation that other groups of people heard and understood all he taught, and recognised who he was. Did Jesus have a bias towards the people of Israel? At first it might seem so, but in the Gospels we find story after story of how he scandalised the authorities because of the people he spent time with. His generosity towards those who sought his help knew no end.

At the beginning of this session, the question was asked: Who are the people you find it difficult to offer generosity and love to? There will always be people we get on really well with, and those we don't. We all have our likes and dislikes. We all have our prejudices, which will then affect our generosity and openness to others.

Regardless of how much we like or dislike someone, or agree or don't agree with them, we are 'to approach relationships with the authenticity that holding faith with life can lead into, where being true to a relationship and bringing love to it are the same thing' (David Gee, page 86).

- *What might this look like in our churches, our communities, and the wider world?*

We are to bring into all of our relationships the love and generosity which God has for us. Faith calls us to welcome that love and to honour it through the ways in which we seek to welcome others. This leads us to uphold other people's dignity and integrity, allowing love to flow, even when we find it difficult to really 'love' those we find it hard to get on with or associate with. Love calls for an openness of heart, which may then challenge our own views, opinions and prejudices.

a allai wedyn herio ein safbwyntiau, ein tybiaethau a'n rhagfarnau ni ein hunain.

Yn ei Gyffesiadau, ysgrifennodd Awstin Sant mai galwad a dyletswydd pob Cristion yw caru Duw. Ychwanega David Gee at hynny drwy ddweud y'n gelwir 'i garu ein cymdogion fel ni ein hunain yn hytrach na ffræo am ddysgeidiaeth, canys cyfeirio tuag at y cariad hwnnw mae popeth a ysgrifennodd Moses' (ibid). Heddiw, gallem ychwanegu agweddau eraill ar ein galwad: fel disgyblion a Christnogion, nid ydym i ffræo ynghylch gwahaniaethau sy'n deillio o amgylchiadau cymdeithasol, agweddau ar iechyd, gwleidyddiaeth, credoau crefyddol, rhyw na chyfeiriadedd rhywiol.

Os credwn mai Duw sy'n caru pawb yw Duw (gweler Galatiaid 3:28-29), yna rydym ninnau hefyd i fod â chalon ac ysbryd sy'n agored ac yn hael tuag at eraill.

— Pa mor hawdd neu anodd yw bod felly i chi?

Haelioni a Bod yn Greadigol

Gwnewch Ffigwr Glanhawr Cetyrn. Cadwch y ffigwr yn rhywle diogel; efallai yn y fan yn eich cartref lle byddwch yn eistedd ar gyfer bod yn dawel a gweddïo.

O'ch meddyliau a'ch myfyrdodau yn ystod y sesiwn hon, pwy neu beth allai'r ffigwr ei gynrychioli, gan felly eich cynorthwyo i ganolbwyntio ac i ddod â'r unigolyn neu'r digwyddiad hwnnw gerbron Duw mewn gweddi?

Efallai y byddwch am ysgrifennu'r enw neu'r digwyddiad ar ddarn o bapur a'i roi gyda'ch Ffigwr Glanhawr Cetyrn fel ffordd o weld sut y bydd eich gweddi ymbil yn tyfu dros yr wythnosau hyn.

Haelioni a Stiwardiaeth – a'r Grawys

Yn y sesiwn hon buom yn ystyried bod yn agored tuag at eraill a haelioni cariad Duw tuag atom ni, yr hyn yr ydym ninnau i'w rannu mewn ffydd. Wrth ysgrifennu am heddwch, sy'n ymwneud hefyd â'n galwad i fod yn bobl hael a stiwardiaid da, gesyd David Gee her i ni:

Mae ymrwymiad mewn ffydd i heddwch yn rhagdybio cyflawnder a llawnder y bywyd a roddwyd i ni ynghyd, lle mae i bob unigolyn, pob cymuned, pob cenedl a phob ecosystem werth anaralladwy fel rhan o'r cyfan. (tudalen 88)

Mae dweud 'anaralladwy' yn golygu na ellir nacáu gwerth unigolyn. Golyga hefyd na allwn wadu ein cyfrifoldeb ninnau na'i osod ar ysgwyddau rhywun arall. Mae i ni oll ein rhan bersonol yn y gwaith.

— *Beth all hyn fod yn ei ddweud wrthyhych chi ynghylch bod yn stiward hael?*

— *Beth all hyn fod yn ei ddweud wrth ein heglwysi ynghylch bod yn stiwardiaid hael?*

Mae stiwardiaeth hefyd yn ymwneud â sylweddoli na allwn drosglwyddo ein hymrwymadau ffydd i 'eraill'. Mae angen i bob un ohonom ystyried beth allwn ninnau ei wneud, gan ofyn i'n hunain, 'Beth allaf fi ei wneud a beth allaf ei roi a'i gynnig?'

— Beth allai hynny fod?

In his Confessions, St Augustine wrote that it is the call and discipleship of every Christian to love God. David Gee adds to this by saying we are called 'to love our neighbours as ourselves rather than squabble over doctrines, for everything that Moses had written was for this love' (ibid). Today we could also include other aspects of our call: as disciples and Christian people, we are not to squabble over differences brought about by social circumstances, health issues, politics, religious belief, gender and sexual orientation.

If we believe that God is a God of love for all (see Galatians 3:28-29), then we too are to have an openness and generosity of heart and spirit towards others.

– *How easy or difficult do you find this to be?*

Generosity and Being Creative

Make a Pipe-Cleaner Person. Keep your Person somewhere safe; maybe you could place it where you sit at home for quietness and prayer.

Out of your thoughts and reflections from this session, who or what may your Person represent, and so help as a focus to bring that particular person or event to God in prayer?

You may wish to write that name or event on a piece of paper and put it with your Pipe-Cleaner Person as a way of seeing how your prayer of intercession grows over these weeks.

Generosity and Stewardship – and Lent

In this session we have been looking at openness to others and the generosity of God's love to us, which in faith we are to share. Writing about peace, which relates as well to our call to be a generous people, good stewards, David Gee offers us a challenge:

A faith commitment to peace assumes the wholeness and fullness of this shared and given life, in which every person, community, people and ecosystem has inalienable value as part of the whole. (page 88)

'Inalienable' means that a person's value cannot be taken away from them; likewise we cannot remove our responsibility or offload it to someone else. We have our own personal part to play.

– *What may this say to you about being a generous steward?*

– *What may this say to our churches about being generous stewards?*

Stewardship, too, is about realising that we cannot leave our faith commitments to 'others'. We each need to consider what we can do, asking ourselves, 'What can I do and what can I give and offer?'

– *What might this be?*

Haelioni ar Waith: Beth ydym wedi ei Etifeddu a Beth yw ein Gwaddol?

Treuliwch amser yn myfyrio'n dawel ynghylch y cyfan rydych wedi ei ddarllen ac wedi meddwl yn ei gylch – ac wedi ei drafod os ydych yn cymryd rhan mewn Cwrs Grawys. Gall hyn fod yn rhywbeth i fyfyrio amdano ar eich pen eich hun ac ar ddiwrnod arall.

- *Beth ydych chi wedi ei ddarganfod amdano eich hun?*
- *Beth ydych chi wedi ei ddarganfod am Dduw?*
- *Beth ydych chi wedi ei dderbyn (ei etifeddu) o'r sesiwn hon?*
- *A oes gair neu ymadrodd sy'n crynhoi'r sesiwn hon i chi?*
- *A oes rhywbeth y gallwch bellach ei gynnig (yn waddol) i eraill?*

Gweithredu ar gyfer yr wythnos hon

Mae'n syndod mor aml y mae gwên yn ennyn gwên yn ôl. Faint o bobl allech chi wenu'n gynnes arnynt a dweud 'helo' wrthynt wrth i chi fynd heibio iddynt ar y stryd, yn y siopau, yn y gwaith?

Meddyliwch wedyn sut oeddech chi'n teimlo. A beth oedd yr ymateb oddi wrth eraill?

Gweddi i Gloi

Dduw haelioni a chariad,
 arllwys arnaf y ddawn i fod yn agored fy nghalon a'm hysbryd.
 Cynorthwya fi i edrych y tu hwnt i'r wyneb
 am y gwirionedd islaw,
 cynorthwya fi i fod yn araf i ddangos fy rhagfarnau
 ond i fod yn barod i ddysgu,
 cynorthwya fi i wynebu heriau fy ffydd
 â gobaith a glewder newydd,
 cynorthwya fi i garu fy hun ac eraill
 fel rwyf tithau'n fy ngharu i,
 cynorthwya fi i ddod yn fwy hael ac agored
 tuag at bawb rwyf yn eu cyfarfod.
 Gweddi'af hyn yn enw Iesu Grist.

Amen.

Generosity in Action: What Have We Inherited and What Is Our Legacy?

Take some time to quietly reflect upon all that you have read and thought about – and discussed if you are part of a Lent Course. This may be something to reflect upon on your own and on another day.

- *What have you discovered about yourself?*
- *What have you discovered about God?*
- *What have you received (inherited) from this session?*
- *Is there a word or phrase that sums up this session for you?*
- *Is there something you can now offer (a legacy) to others?*

Action for this week

It's surprising how much a smile, when offered, generates a smile in return. How many people could you offer a warm smile and 'hello' to as you pass them on the street, in the shops, at work?

Reflect afterwards on how you felt. And what was the reaction from others?

Closing Prayer

God of generosity and love,
pour upon me an openness of heart and spirit.
Help me to look beyond the surface
to the truth beneath,
help me to be slow to reveal my prejudices
but be willing to learn,
help me to face the challenges of my faith
with renewed hope and courage,
help me to love myself and others
as you love me,
help me to become more generous and open
towards everyone I meet.
This I pray in the name of Jesus Christ.

Amen.



YR EGLWYS
YNG NGHYMRU



THE CHURCH
IN WALES